
WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

## Cyngor Sir Powys

Ionawr 2011



## Adroddiad Gwella Blynyddol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

Ysgrifennir yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru. (Ceir eglurhad o swyddogaeth yr Archwilydd Cyffredinol yn Atodiad 1). Adroddiad newydd ydyw y mae'n ofynnol iddo ei gyhoeddi o ran pa mor dda y mae cynghorau Cymru yn gwella'u gwasanaethau. Gyda chymorth arolygwyr eraill fel Estyn (ar gyfer addysg) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae'r cyngor yn ceisio ei gyflawni; sut mae'n gwneud hynny; a'r hyn y mae angen i'r Awdurdod ei wneud i wella'r ffordd y mae'n gwella ei wasanaethau.

Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn cyfleu'r darlun hwnnw a bob blwyddyn byddwn yn llunio adroddiad i roi gwybod i chi am y cynnydd y mae Cyngor Sir Powys (y Cyngor) wedi'i wneud. Nid ydym wedi ymdrin â phob gwasanaeth y mae'r Cyngor yn ei ddarparu. Rydym wedi canolbwyntio ar nifer fach o bethau, yn arbennig y pethau hynny y mae'r Cyngor wedi dweud yw ei flaenoriaethau o ran gwella.

Rydym am wybod eich barn ar y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu yn eich ardal a chewch gyfle i gyflwyno sylwadau yn y dyfodol. Yn y cyfamser hoffem wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn i ni drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

Cynhwysai tîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru a’m cynorthwyodd i lunio’r adroddiad hwn Colin Davies a Justine Morgan, o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru fel sy'n ofynnol gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn asesu cydymffurfiaeth awdurdodau gwella yng Nghymru (cynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub) â gofynion gwella Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a’i staff yn gweithio o dan adain Swyddfa Archwilio Cymru. Am ragor o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Cymru, ysgrifennwch at yr Archwilydd Cyffredinol yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ. Ffôn 029 2032 0500, e-bost: info@wao.gov.uk, neu ewch i'r wefan yn www.wao.gov.uk.

(h) Archwilydd Cyffredinol Cymru, 2011

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei ailddefnyddio’n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

# Cynnwys


Pa fath o ardal yw Powys? 04

A yw Cyngor Sir Powys yn cael ei reoli'n dda? 05

A yw Cyngor Sir Powys yn gwybod beth mae angen iddo ei wneud i wella? 08

A yw Cyngor Sir Powys yn gwasanaethu pobl yn dda? 12

A yw Cyngor Sir Powys yn helpu pobl mewn angen? 14

A yw Cyngor Sir Powys yn helpu pobl i ddatblygu? 18

A yw Cyngor Sir Powys yn helpu i greu lle diogel, ffyniannus a phleserus i fyw? 22

Beth y dylai Cyngor Sir Powys ei wneud? 25


**Atodiadau**


Atodiad 1 - Gwybodaeth am Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r adroddiad hwn 27

Atodiad 2 - Gwybodaeth ddefnyddiol am Bowys a Chyngor Sir Powys 29

Atodiad 3 - Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol 31

Atodiad 4 - Llythyr Archwilio Blynyddol at Aelodau Cyngor Sir Powys 33

Atodiad 5 - Amcanion gwella Cyngor Sir Powys 35

Atodiad 6 - Cyfeiriadau 36

# Pa fath o ardal yw Powys?

1 Mae Powys yn ymestyn dros 5,196 km², gan ei gwneud yn sir fwyaf Cymru o ran arwynebedd tir. Mae'n ffinio tua'r gogledd â Gwynedd, Sir Ddinbych a Wrecsam; i'r gorllewin mae Ceredigion a Sir Gaerfyrddin; i'r dwyrain mae Swydd Amwythig a Swydd Henffordd; ac i'r de mae Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Caerffili, Blaenau Gwent, Sir Fynwy a Chastell-nedd Port Talbot.

2 Ar sail yr amcangyfrif diweddaraf (2009), mae gan Bowys boblogaeth o tua 131,736. Mae proffil oedran y boblogaeth yn dangos bod 23,029 o blant 16 oed neu'n iau a 29,537 o bobl 65 oed neu'n hŷn ym Mhowys yn 2009. Rhagwelir y bydd poblogaeth Powys yn cynyddu tua 11 y cant erbyn 2033, cynnydd sylweddol o gymharu â rhai ardaloedd eraill o Gymru.

3 Roedd 8,600 o fusnesau wedi'u cofrestru at ddibenion TAW ym Mhowys yn 2008, a'r sector adeiladu oedd y prif faes ar gyfer y busnesau hyn gydag 16 y cant.

4 Ceir rhagor o wybodaeth am Bowys a'r Cyngor yn Atodiad 2.

ardal ddaearyddol
5,196 km²
/////////////

poblogaeth
131,736
/////////////

# A yw Cyngor Sir Powys yn cael ei reoli'n dda?

5 Ym mis Awst 2010, lluniodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad sy'n nodi sut y caiff y Cyngor ei drefnu a'i reoli. Ceir crynodeb o'r adroddiad hwn, sef yr Asesiad Corfforaethol, yn Atodiad 3. Mae'r Adroddiad Asesu Corfforaethol llawn ar gael ar wefan y Cyngor neu ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru yn www.wao.gov.uk.

6 Y casgliad cyffredinol sy'n deillio o'r Asesiad Corfforaethol yw bod ymrwymiad y Cyngor i symud o ddarparu adrannol traddodiadol, sydd wedi cael anhawster i gyflawni ei flaenoriaethau, i ddull mwy uchelgeisiol, trawsbynciol a chydsyniol yn cynnig y potensial i sicrhau gwelliant os caiff trefniadau cefnogol effeithiol eu datblygu'n brydlon.

7 Drwy weithio'n fwy fel un sefydliad yn hytrach na chyfres o adrannau, mae'r Cyngor yn ceisio canolbwyntio mwy ar yr hyn sydd ei angen ar bobl leol. Er hynny, bydd yn rhaid iddo hefyd wella'r ffordd y mae'n cefnogi ac yn darparu gwasanaethau.

8 Er bod cynlluniau'r Cyngor ar gyfer y dyfodol yn uchelgeisiol, araf fu'r newid. Roedd y Cyngor yn rheoli ei arian o ddydd i ddydd yn gymharol dda ond nid oedd yn cynllunio ddigon ymlaen llaw ar gyfer y tymor canolig a'r tymor hwy. Cofnodwyd hefyd nad oedd y Cyngor yn cael gwybodaeth dda am sut roedd yn perfformio nac yn gwneud y defnydd gorau o'i bobl a TG.

9 Ers hynny, er bod y Cyngor wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â'r materion hyn a nodir yn yr asesiad Corfforaethol, nid yw hyd yma wedi datblygu ei gynlluniau a'i raglenni manwl i'r graddau y gallant ddangos bod y Cyngor yn glir o ran yr hyn y mae angen iddo ei wneud i gyflawni ei amcanion gwella, a ph'un a all fforddio gwneud hynny.


10 Ers i ni lunio'r Asesiad Corfforaethol mae'r pwysau wedi cynyddu ar bob gwasanaeth cyhoeddus i wneud y defnydd gorau posibl o'i holl adnoddau. Mae'r archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol wedi rhoi ei farn ar gyfrifon y Cyngor. Caiff ei lythyr archwilio blynyddol, sy'n rhoi gwybodaeth am y cyfrifon, y defnydd o adnoddau a Chynllun Gwella'r Cyngor ei gynnwys yn yr adroddiad hwn yn Atodiad 4.

11 Mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu a mireinio'i ddull cynllunio ariannol tymor canolig a sut i wneud y defnydd gorau o'r arian sydd ganddo. Dros yr haf ac ar ddechrau'r hydref mae'r Cyngor wedi gwneud gwaith pellach i asesu ei ofynion o ran adnoddau refeniw tebygol yn y dyfodol. Rhagwelir y bydd y gofyniad o ran cyllideb net yn cynyddu o £233 miliwn yn 2010-11, i £242 miliwn erbyn 2014-15.

12 Ar yr un pryd mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd ei lefelau ariannu yn gostwng yn y dyfodol, gan arwain at gyllideb fantoledig yn 2010-11 ond diffyg o £16 miliwn erbyn 2013-14, yn cynyddu i £21.5 miliwn erbyn 2014-15. Dangosir y sefyllfa hon a ragwelir yn Ffigur 1, ac mae'n seiliedig ar amcangyfrifon gorau'r Cyngor. Mae sawl tybiaeth yn ategu'r amcangyfrifon hyn, gyda'r rhai mwyaf arwyddocaol yn cynnwys gostyngiad o 3 y cant o flwyddyn i flwyddyn mewn arian a geir gan Lywodraeth y Cynulliad a chynnydd o 3.99 o flwyddyn i flwyddyn yn y Dreth Gyngor.

13 Rheolwyd cyllideb y Cyngor yn dda yn ystod y blynyddoedd diwethaf gan gyflawni cyllidebau mantoledig ar y lefel gorfforaethol (er bod gan rai is-adrannau ddiffyg hanesyddol o hyd). Yn gyffredinol mae hyn yn sail gadarn i'r Cyngor wrth iddo wynebu cyfnod o newid sylweddol a thoriadau ariannol gan fod ganddo hanes da o sicrhau y caiff ei wasanaethau eu darparu gyda'r adnoddau sydd ar gael iddo. Fodd bynnag, mae angen i'r Cyngor fynd i'r afael â rhai heriau ariannol sylweddol os yw am sicrhau lefel yr arbedion a ragwelir ganddo.

**Ffigur 1: Gwariant cyllideb ac incwm a ragwelir 2010-11 - 2014-15:**
Bydd y bwlch rhwng yr hyn y mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd angen iddo ei wario a lefel yr adnoddau a fydd ar gael iddo yn cynyddu yn y dyfodol oni bai bod y Cyngor yn cymryd camau i leihau gwariant, neu gynhyrchu mwy o incwm.




*Ffynhonnell: Cyngor Sir Powys, cyflwyniad o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig i'r Bwrdd, Hydref 2010.*

14 Yn ddiweddar cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad y lefelau ariannu i Awdurdodau Lleol ar gyfer 2011-12, ac ar gyfer y Cyngor bydd hynny'n golygu lleihad o 1.2 y cant mewn arian ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae'r toriad hwn yn llai difrifol na thybiaaethau cynllunio'r Cyngor cyn y cyhoeddiad fel y nodir yn Ffigur 1, ond mae llawer o newidynnau yn anhysbys o hyd. Mae'r Cyngor wedi dechrau gweithio ar amrywiaeth o opsiynau i sicrhau arbedion.

15 Mae'r Cyngor yn gweithio i gysylltu ei gynlluniau arbedion ariannol â'r 'Cynllun Newid Powys' strategol. Ymhlith rhai o'r meysydd mwy sylweddol a dargedir gan y cynlluniau arbed arian hyn mae:

- Arbedion ac effeithlonrwydd yng nghostau a chynhyrchiant staff - cynllunio gostyngiad o 10 y cant mewn staff llawn amser cyfwerth o fewn swyddogaethau corfforaethol a'r swyddfa gefn dros gyfnod o dair blynedd, a hefyd yn ystyried mabwysiadu dulliau gweithio mwy hyblyg gan gynnwys gweithio o gartref a lleihad cyfatebol yng nghostau swyddfeydd.

- Gweithredu newidiadau a gynlluniwyd mewn arferion busnes, yn enwedig o fewn y Gwasanaethau Lleol ac Amgylcheddol, ac wrth reoli fflydoedd yn well.
- Ymgysylltu ac ymgynghori cyhoeddus ar wasanaethau anstatudol, gyda'r potensial i gyfyngu ar wasanaethau mewn ardaloedd a werthfawrogir lai.
- Adolygiad caffael o gyflenwyr allweddol - gan ddechrau gyda'r 50 o gyflenwyr gwerth uchaf. Mae gwaith cychwynnol yn y maes hwn eisoes wedi nodi'r cwmpas ar gyfer arbedion potensial sylweddol.

16 Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd ei gynigion, sydd wrthi'n cael eu datblygu'n llawn, yn arwain at arbedion sylweddol o ran costau i fantoli'r gyllideb refeniw dros y pum mlynedd nesaf.

17 Arian cyfalaf yw'r arian a werir gan gynghorau ar seilwaith, er enghraifft adeiladau a chyfarpar newydd. Mae disgwyl i'r arian cyfalaf sydd ar gael i'r Cyngor leihau'n sylweddol. Gan fod cynghorau'n gwneud ceisiadau am arian cyfalaf i Lywodraeth y Cynulliad, nid yw'n bosibl bod yn gwbl sicr faint y bydd pob cyngor yn ei gael. Bydd lleihad o 14 y cant yng nghyfanswm yr arian cyfalaf sydd ar gael i gynghorau yn 2011-12 (sef lleihad mewn termau real o 18.5 y cant). Nid oes unrhyw ffigurau swyddogol ar gael ar gyfer gwariant cyfalaf llywodraeth leol y tu hwnt i 2011-12 ond mae'n debygol o fod yn unol â lleihad cyffredinol yng ngwariant cyfalaf Llywodraeth y Cynulliad, a fydd yn lleihau tua 34 y cant (sef tua 40 y cant mewn termau real) rhwng 2010-11 a 2013-14. Bydd y lefel hon o doriad yn yr arian cyfalaf sydd ar gael i lywodraeth leol yn effeithio ar gynlluniau'r Cyngor ar gyfer y dyfodol, a'i allu i ailddylunio rhai gwasanaethau fel y rhaglen barhaus o foderneiddio ac ad-drefnu ysgolion.

# A yw Cyngor Sir Powys yn gwybod beth mae angen iddo ei wneud i wella?

## Pam y dylai cyngor bennu amcanion clir?

18 Rôl llywodraeth leol yng Nghymru yw darparu arweinyddiaeth gymunedol a democrataidd. Drwy wneud hynny mae angen i'r Cyngor weithio gyda'r llywodraeth genedlaethol i helpu i gyflawni blaenoriaethau a rhaglenni cenedlaethol. Hefyd, mae angen i'r Cyngor ddatblygu blaenoriaethau lleol gan ystyried anghenion dinasyddion, y dyletswyddau a'r swyddogaethau statudol a roddir arno a thrwy ymgynghori â phartneriaid, cymunedau ac asiantaethau eraill.

19 O ystyried yr ystod eang o swyddogaethau a gyflawnir gan Gyngor, ei rwymedigaeth i ofynion cenedlaethol yn ogystal â gofynion lleol, a'r angen i sicrhau y defnyddir ei adnoddau'n effeithiol, mae'n bwysig bod eglurder o ran yr hyn y mae'r Cyngor yn bwriadu ei wneud a pham ei fod yn gwneud hynny. Mae eglurder o'r fath yn darparu fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch y defnydd o adnoddau. Drwy sicrhau y gall nodi canlyniad ei weithgarwch, gall y Cyngor roi sicrwydd i aelodau etholedig unigol, ei ddinasyddion ac eraill, ei fod yn defnyddio ei adnoddau yn y ffordd orau bosibl.

20 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor gyhoeddi ei gynlluniau ar gyfer gwella'r hyn y mae'n ei wneud ac egluro sut y bydd yn gwneud hynny cyn gynted ag y bo'n bosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn. Mae'n rhaid iddo hefyd gyhoeddi rhestr o flaenoriaethau y mae'n bwriadu eu gwella bob blwyddyn - ei amcanion gwella.

## Beth yw amcanion gwella'r Cyngor?

21 Cymeradwyodd y Cyngor weledigaeth newydd i'r cyngor '*Gwasanaethau Effeithlon i Galon Werdd Cymru*' ym mis Chwefror 2010, i'w darparu drwy fodel newid strategol. Rhwng mis Chwefror a mis Gorffennaf 2010 ymatebodd y Cyngor i adborth gan aelodau a diwygiodd ei ddrafft gwreiddiol yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Ym mis Gorffennaf 2010[1], cyhoeddodd y Cyngor ei Gynllun Gwella Corfforaethol 2010-2014, a elwir yn Gynllun Newid Powys hefyd, sy'n nodi ei flaenoriaethau gwella. Er bod y Cyngor wedi cyhoeddi ei amcanion gwella ar gyfer 2010-11 mewn ffordd fwy amserol na rhai awdurdodau lleol eraill, bydd angen iddo gyhoeddi amcanion gwella 2011-12 yn gynharach y flwyddyn hon er mwyn cydymffurfio â'r amserlen statudol.

22 Mae'r Cyngor wedi gosod pedair 'blaenoriaeth wella' a chwe 'blaenoriaeth effeithlonrwydd' iddo'i hun (Ffigur 2). Caiff y 10 blaenoriaeth eu cefnogi gan gyfres o 'amcanion rhaglen' sy'n nodi'r hyn y mae'r Cyngor am ei gyflawni erbyn 2014 yn fanylach. Bwriad y Cyngor yw bod y blaenoriaethau effeithlonrwydd yn cefnogi'r broses o gyflawni'r pedair blaenoriaeth wella ac yn rhyddhau effeithlonrwydd fel rhan o'r broses o gyrraedd ei darged arbedion o £16 miliwn.

23 Mae cysylltiadau rhwng y pedair blaenoriaeth hyn a'r pum thema a nodir yn y Strategaeth Gymunedol 2008-11 gynharach. Fodd bynnag, mae'r gyfres newydd o flaenoriaethau gwella yn adlewyrchu ymgais gan y Cyngor i ailganolbwyntio ei weithgareddau gwella i gydnabod bod angen cyflymu cynnydd a chanolbwyntio ar gyfres fwy cyfyngedig o amcanion.

1 Cymeradwyodd Bwrdd y Cyngor y Cynllun Newid ar 13 Gorffennaf 2010.

**Ffigur 2: Blaenoriaethau Gwella Cyngor Sir Powys**

| **Blaenoriaethau gwella** | |
|---|---|
| Byw fel oedolion | Helpu'r boblogaeth hŷn i aros yn eu cartrefi, ond hefyd wella cyflwr tai ac atal digartrefedd. |
| Dysgu yn y Gymuned | Ateb heriau'r nifer gostyngol o ysgolion, drwy ddatblygu cyfleusterau aml-swyddogaeth, sy'n darparu cyfleoedd dysgu a hamdden i'r gymuned gyfan. |
| Adfywio | Cwblhau strategaeth adfywio Powys sy'n allweddol wrth greu cymunedau ffyniannus. |
| Newid yn yr Hinsawdd | Lleihau ôl troed carbon y Cyngor, cefnogi eraill wrth leihau eu hallyriadau carbon eu hunain a gwella gallu Powys i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd, tywydd garw yn benodol. |
| **Blaenoriaethau effeithlonrwydd** | |
| Prosesau | Gwella effeithlonrwydd drwy broses fwy syml a llai biwrocrataidd, sy'n rhoi mwy o bŵer i staff y rheng flaen. |
| TGCh | Defnyddio TGCh i gefnogi'r gwaith o ail-beiriannu a darparu proses yn erbyn amcanion gwella. |
| Gweithlu | Sicrhau y caiff staff y Cyngor eu cydnabod mewn ffordd deg a bod ganddynt y sgiliau priodol. |
| Gwasanaethau Cefnogol | Cyflawni effeithlonrwydd mewn gwasanaethau cymorth, drwy weithio gyda phartneriaid, fel y gwasanaeth iechyd a chynghorau eraill. |
| Asedau | Ad-drefnu portffolio eiddo'r Cyngor drwy ddatblygu adeiladau y rhennir y defnydd ohonynt, a lleihau'r fflyd drwy rannu'r defnydd o gerbydau. |
| Rheoleiddio | Ailddylunio gwasanaethau i gyflawni effeithlonrwydd sy'n adlewyrchu sefyllfa ariannol bresennol y Cyngor. |

*Ffynhonnell: Cynllun Gwella Corfforaethol Cyngor Sir Powys 2010-2014*

## A yw'r Cyngor wedi pennu amcanion gwella priodol?

24 Edrychwyd hefyd ar ba mor dda yr oedd y Cyngor wedi cynnwys pobl leol, partneriaid a'r rhai sy'n gweithio iddo a chydag ef, wrth bennu'r hyn y dylid ei flaenoriaethu. Canfu fod y Cyngor wedi dangos ymrwymiad i ddatblygu ei amcanion gwella gyda staff, dinasyddion a phartneriaid.

25 Mae'r blaenoriaethau gwella yn adlewyrchu ymgynghoriadau'r Cyngor â phobl leol drwy ei banel o ddinasyddion yn 2008 a'r arolwg o drigolion yn 2009. Mae'r Cyngor wedi cysoni ei amcanion gwella â'r pryderon a fynegwyd gan bobl leol. Mae pobl leol yn ystyried gofal pobl hŷn fel blaenoriaeth ac adlewyrchir hyn yn yr amcan gwella byw fel oedolion. Mae pobl leol hefyd yn ystyried ailgylchu fel blaenoriaeth, ac un o amcanion yr amcan gwella newid yn yr hinsawdd yw ailsefydlu a chwblhau'r cynllun peilot ymyl y ffordd yn Ystradgynlais.

26 Drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol, ymgynghorodd y Cyngor â phartneriaid ar ddatblygu ei Gynllun Newid.

27 Ar ôl cytuno ar yr amcanion gwella, gwnaeth y Cyngor waith da wrth rannu ei gynlluniau â phobl leol. Cyhoeddodd y Cyngor ei gynlluniau ar ei wefan a chafodd gyhoeddusrwydd yn y wasg leol, gyda phapurau newydd lleol yn cynnwys nifer o erthyglau yn adolygu gweledigaeth newydd a Chynllun Newid y Cyngor. Mae'r Cyngor hefyd wedi dosbarthu copïau caled o'r Cynllun Newid i'w brif swyddfeydd a llyfrgelloedd y Cyngor.

## A oes gan y Cyngor gynlluniau realistig ar gyfer cyflawni canlyniadau ei flaenoriaethau?

28 Mae Cynlluniau Gwella Gwasanaethau yn elfen allweddol o drefniadau'r Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau gwella, a rhoddwyd y dasg o lunio'r Cynlluniau hyn erbyn mis Gorffennaf 2010 i reolwyr gwasanaeth ym mis Chwefror 2010. Fodd bynnag, dim ond ym mis Hydref 2010 roedd y Cynlluniau Gwella Gwasanaethau hyn ar gael i'w harchwilio.

29 Mae'r Cynlluniau Gwella Gwasanaethau yn dangos yn glir bod gwasanaethau wedi cysylltu eu hamcanion gwella eu hunain â blaenoriaethau gwella cyffredinol y Cyngor. Fodd bynnag, nid yw mor glir y gall y dewisiadau a wnaed gan y gwasanaethau gyflawni'r newid trawsnewidiol ym mhrosesau a chanlyniadau gwasanaethau a fwriadwyd gan y Cyngor. Mewn un Cynllun roedd tystiolaeth o densiynau rhwng yr hyn roedd y gwasanaeth yn ei ystyried fel ei flaenoriaethau gwella a blaenoriaethau cyffredinol y Cyngor.

30 Hefyd, nid yw'r Cyngor wedi datblygu cynlluniau ariannol cynhwysfawr hyd yma i gyflawni ei amcanion gwella, ac nid yw ychwaith wedi gwneud ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig yn gyson â'i flaenoriaethau gwella hyd yma. Er ei bod yn ofynnol i Gynlluniau Gwella Gwasanaethau ddarparu costau ar gyfer prosiectau allweddol sydd eu hangen i gyflawni'r gwelliant, nid yw pob un o'r Cynlluniau hyn yn gwneud hynny - mae nifer yn nodi bod angen rhagor o wybodaeth cyn y gellid rhoi cost ar yr ymyrraeth.  Ar gyfer pob un o'i ddeg blaenoriaeth, mae'r Cyngor wedi datblygu Dogfennau Cychwyn Rhaglen. Nid yw'r dogfennau hyn bob amser yn cynnwys asesiad o faint y bydd yn ei gostio i gyflawni'r gwelliannau gofynnol, a phan fyddant yn gwneud hynny, amcangyfrifon bras iawn ydynt.

## A fydd y Cyngor yn gallu dangos p'un a yw wedi cyflawni canlyniadau ei flaenoriaethau?

31 Wrth bennu amcanion gwella, mae angen i'r Cyngor fod yn glir o ran yr hyn y mae'n ceisio'i gyflawni, a gallu egluro'n glir i ddinasyddion lleol pa wahaniaeth y bydd cyflawni'r amcanion hyn yn ei wneud i'w bywydau. Rhaid i'r Cyngor gael ffyrdd o fesur a dangos perfformiad fel bod pawb yn deall p'un a yw cyflawni'r amcanion gwella wedi gwneud gwahaniaeth ai peidio.

32 Canfu ein harchwiliad fod y Cyngor wedi rhoi systemau digonol ar waith i lunio'r mwyafrif o ddangosyddion perfformiad cenedlaethol 2009-10 a ddefnyddir i fesur perfformiad. Cyflwynwyd adroddiad ar ein canfyddiadau manwl i'r Cyngor.

33 Fodd bynnag, ni all y Cyngor hyd yma ddangos fod ganddo gyfres briodol o fesurau i asesu ei lwyddiant wrth gyflawni ei amcanion gwella newydd. Bwriad y Cyngor yw defnyddio'r gyfres bresennol o fesurau strategol cenedlaethol, a chyfres o fesurau lleol i asesu ei berfformiad wrth gyflawni ei amcanion gwella. Mae hefyd yn bwriadu ad-drefnu ei fesurau lleol presennol i sicrhau mai dim ond y mesurau sy'n berthnasol i'w amcanion gwella a gedwir. Fodd bynnag, nid yw wedi gwneud hyn hyd yma. Felly, ni all y Cyngor gael sicrwydd fod ganddo fesurau ar waith i asesu cynnydd yn erbyn ei holl flaenoriaethau gwella a'r amcanion ategol.

# A yw Cyngor Sir Powys yn gwasanaethu pobl yn dda?

34 Drwy ein Hasesiad Gwella gobeithiwn yn raddol greu darlun o ba mor dda y mae'r Cyngor yn gwasanaethu pobl leol. Er mwyn gwneud hynny, bob blwyddyn byddwn yn ystyried gwasanaethau'r Cyngor a rhai o'i amcanion ar gyfer gwella fel y maent yn berthnasol i dair agwedd bwysig ar fywyd ym Mhowys. Credwn fod yr agweddau hyn, gyda'i gilydd, yn cwmpasu'r prif bethau y dylai cynghorau eu gwneud.  Mae'r amcanion fel a ganlyn:

- helpu i gefnogi pobl mewn angen;
- helpu pobl i ddatblygu; a
- helpu i greu lle diogel, ffyniannus a phleserus i fyw.

35 Yn yr asesiad eleni, rydym wedi ystyried pa mor dda y mae'r Cyngor yn ei wneud hyd yn hyn o ran un amcan o dan bob un o'r agweddau hyn, fel y bydd y Cyngor, ac eraill, y flwyddyn nesaf, mewn sefyllfa well i ddeall faint y mae perfformiad wedi gwella. Mae'r amcanion a ddewiswyd gennym fel a ganlyn:

- Byw fel Oedolion a sut mae'r Cyngor yn arwain y blaen wrth ddatblygu model gofal wedi'i integreiddio;
- Dysgu yn y Gymuned a sut mae'r Cyngor yn sicrhau bod ysgolion bro a sefydliadau addysg ôl-16 yn addas at y diben, gan gysylltu â hamdden ac adloniant; a
- Newid yn yr Hinsawdd a ph'un a yw'r Cyngor yn lleihau faint o wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi.

36 Dewiswyd yr amcanion hyn oherwydd gyda'i gilydd maent yn cwmpasu sawl maes allweddol o gyfrifoldebau'r Cyngor. Ar y cyfan, os yw'r Cyngor wedi dewis blaenoriaethu pethau, dylai fod yn gallu eu mesur o ran sut maent yn effeithio ar bobl leol.

37 Byddwn yn edrych ar amcanion gwella eraill y mae'r Cyngor yn eu pennu iddo'i hun yn ein hadroddiad y flwyddyn nesaf.

38 Yng Nghymru mae angen hefyd i wasanaethu dinasyddion a darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, fel sy'n briodol i anghenion y gymuned. Yn 2009, gallai 25.4 y cant o boblogaeth Powys siarad Cymraeg, o gymharu â 25.6 y cant o boblogaeth Cymru. Dyma'r wythfed awdurdod lleol uchaf yng Nghymru. Mae nifer y disgyblion a aseswyd yn Gymraeg fel iaith gyntaf yn is na chyfartaledd Cymru.

39 Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol i'w helpu i ddatblygu eu cynlluniau iaith Gymraeg statudol sy'n amlinellu'r ffordd y maent yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg. Yr awdurdodau sy'n bennaf gyfrifol am ystod a safon y gwasanaethau a ddarperir ganddynt, gan weithio yn unol â fframwaith statudol a chanllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Disgwylir i bob awdurdod lleol gyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg sy'n egluro sut y gweithredwyd ei gynllun. Mae'r Adroddiad hwn yn galluogi'r Bwrdd i gynnig cyngor o ran sut y gallai Cyngor wella'i drefniadau lleol. Mae'r Bwrdd hefyd yn cynnal ei adolygiadau ei hun i asesu'r ddarpariaeth o wasanaethau Cymraeg ac i ysgogi gwelliant.

40 Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi canmol y Cyngor am sefydlu'r Bwrdd Llywio Cydraddoldebau a'r Iaith Gymraeg a rhoi iddo awdurdod cyffredinol dros weithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg yn effeithiol ym mhob gwasanaeth. Mae'r Bwrdd Llywio yn parhau i sicrhau y gwneir cynnydd wrth weithredu'r cynlluniau gwella a nodwyd yn dilyn asesiadau o effaith y prosiect Anelu'n Uchel.

41 Canfu Bwrdd yr Iaith Gymraeg nad oedd y Cyngor yn cydymffurfio'n llawn â'i Gynllun Iaith Gymraeg o ran ei wefan. Roedd dogfennau a ffurflenni iaith Gymraeg yn llai cynhwysfawr ac nid oeddent mor ddiweddar â'r cynnwys Saesneg.

42 Mae'r Cyngor wedi gweld lleihad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn ei gyflogaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Dylai mabwysiadu a gweithredu Strategaeth Sgiliau Ieithyddol ddiwygiedig i fynd i'r afael â'r mater hwn.

# A yw Cyngor Sir Powys yn helpu pobl mewn angen?

43 Yn 2008-09, roedd gan Bowys y gyfradd ysmygu mewn oedolion isaf ond un yng Nghymru a'r gyfradd isaf ond un o ran gordewdra mewn oedolion, ac ar gyfer 2009-10 roedd y nifer amcangyfrifedig o unigolion a gyfeiriwyd am driniaeth alcohol yn is na chyfartaledd Cymru. Mae nifer y trigolion ym Mhowys sy'n gwneud ymarfer corff o fathau gwahanol (e.e. nofio) yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, ac mae cyfranogwyr yn debygol o gael budd o ran eu hiechyd a'u lles.

44 Fodd bynnag, mae'r ddemograffeg o boblogaeth sy'n heneiddio yn cyflwyno nifer o heriau i'r Cyngor. Y disgwyliad oes i ddynion ym Mhowys ar gyfer 2006-08 oedd 79.3 mlynedd, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru o 77.0 mlynedd a'r uchaf ond un yng Nghymru. Y disgwyliad oes i ferched ym Mhowys ar gyfer 2006-08 oedd 82.7 mlynedd, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru o 81.4 mlynedd.

45 Rôl Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yw cyflawni asesiadau proffesiynol a llunio barn broffesiynol ynghylch gofal cymdeithasol, gwasanaethau blynyddoedd cynnar a gwasanaethau cymdeithasol a thrwy hynny annog y darparwyr gwasanaethau i wella. Mae'n gweithio ar ran Gweinidogion Cymru, ond mae nifer o fesurau diogelu ar waith i sicrhau ei hannibyniaeth. O dan ddeddfwriaeth newydd ceir fframwaith newydd ar gyfer gwaith arolygu, gwerthuso ac adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol.

46 Mae'n ofynnol i Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol lunio adroddiad hunanasesu blynyddol ar ba mor dda y mae gwasanaethau'n cael eu darparu. Yna bydd AGGCC yn mynd ati i adolygu a dadansoddi tystiolaeth sy'n sail i'r adroddiad, gan gynnwys tystiolaeth a roddir gan reoleiddwyr ac arolygwyr eraill. Yn dilyn y gwaith dadansoddi hwn ceir cynllun arolygu ac adolygu unigol ar gyfer pob cyngor. Caiff dadansoddiad AGGCC, ynghyd â'r cynllun arolygu ac adolygu, eu cyflwyno bob blwyddyn mewn llythyr a gyhoeddir.

47 2009-10 yw blwyddyn lawn gyntaf y fframwaith newydd sydd â'r nod o sefydlu llinell sylfaen o berfformiad presennol. Mae'r paragraffau canlynol yn rhoi crynodeb o lythyr AGGCC at Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol. Unwaith y cyhoeddir y llythyr, bydd ar gael ar wefan AGGCC yn www.aggcc.cymru.gov.uk.

48 Yn gyffredinol, mae angen hirsefydledig i foderneiddio gwasanaethau'r Cyngor i oedolion a gwella ei ddatblygiad strategol. Ni chaiff cyfrifoldebau nac atebolrwydd asiantaethau gwahanol ym maes datblygu strategol eu nodi'n glir, nid oes cynllun rheoli newid effeithiol na chynlluniau comisiynu a chaffael ar gyfer moderneiddio gwasanaethau i oedolion. Mae'r broses o neilltuo gweithiwr cymdeithasol yn cymryd gormod o amser ac mae cryn dipyn yn fwy o achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal na chyfartaledd Cymru. Mae prinder gwasanaethau i bobl â phroblemau iechyd meddwl, nid oes digon o ymarferwyr iechyd meddwl cymeradwy ac nid yw'r Cyngor wedi darparu cynlluniau gweithredu eto yn dilyn archwiliadau i wasanaethau iechyd meddwl.

49 Mewn perthynas â rhai dangosyddion, mae perfformiad gwasanaethau i oedolion yn well na chyfartaledd Cymru. Er enghraifft, caiff cynlluniau ac asesiadau gofal eu cwblhau’n gymharol gyflym ac mae gwelliant da o fewn dangosyddion perfformiad gofalwyr. Mae’r Cyngor yn cynnal ei berfformiad wrth ddiogelu oedolion sy’n agored i niwed. Fodd bynnag, caiff yr arwyddion mwy cadarnhaol hyn eu gwrthbwyso gan yr heriau sy’n wynebu gwasanaethau’r Cyngor i oedolion.

50 Yn y gwasanaethau i blant, mae arweinyddiaeth y Pennaeth Gwasanaethau presennol wedi bod yn allweddol wrth wella perfformiad yn ystod amseroedd ansicr. Mae perfformiad o ran rheoli achosion yn cyrraedd targedau statudol ac mae'r Cyngor yn sicrhau y caiff plant eu hasesu'n gyflym ac y cynhelir pob asesiad gan weithwyr cymdeithasol. Mae ystod y gwasanaethau i blant wedi gwella, gan gynnwys gwasanaethau sy'n cefnogi annibynniaeth a chynhwysiant cymdeithasol. Mae gwaith y Bwrdd Lleol Diogelu Plant yn arfer nodedig.

51 Fodd bynnag, mae meysydd i'w gwella o fewn gwasanaethau i blant hefyd. Dylai'r Cyngor sicrhau bod ei strategaeth sicrwydd ansawdd ddiwygiedig yn parhau i gyfrannu at safonau gwella a bod ei dargedau mewnol yn unol â chanllawiau statudol. Bellach, mae angen i'r Cyngor gyfuno'r gwaith y mae eisoes wedi'i wneud er mwyn sicrhau bod amrywiaeth eang o wasanaethau i ddiwallu anghenion plant, pobl ifanc a'r rhai sy'n gadael gofal.

52 Mae integreiddio gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau iechyd yn fater allweddol ac mae angen i'r Cyngor sicrhau bod ganddo drefniadau llywodraethu priodol. Hefyd, mae angen sefydlogi rolau uwch ym maes gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau i oedolion yn ogystal â sicrhau bod gwasanaethau i blant yn parhau i gael eu rheoli'n effeithiol drwy newidiadau yn y dyfodol.

## A yw Cyngor Powys yn arwain y blaen wrth ddatblygu model gwasanaeth wedi'i integreiddio?

### Pam mae’r Cyngor wedi nodi hyn fel blaenoriaeth gwella?

53 Mae’r Cyngor yn cydnabod bod angen i ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol gael eu cyfuno a bod angen cydweithredu'n lleol er budd dinasyddion Powys. Mae'r Cyngor wedi cytuno mewn egwyddor ar ddull cydweithredol o ddarparu gwasanaethau gyda Bwrdd Addysgu Iechyd Powys.

54 Pan ymgynghorodd y Cyngor â phobl leol yn 2009, teimlwyd y dylai gofal cymdeithasol i oedolion fod yn flaenoriaeth uchel i'r Cyngor. Mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod nad yw ei wasanaethau i oedolion wedi cynyddu ar raddfa a welwyd gyda datblygiadau mewn meysydd eraill[2].

55 At hynny, mae perfformiad y Cyngor o ran nifer o fesurau perfformiad cenedlaethol a lleol yn dangos bod angen i'r Cyngor wella ei wasanaethau i bobl hŷn:

- Ers sawl blwyddyn, mae'r Cyngor wedi cael problem gyson i helpu pobl hŷn i aros yn y gymuned. Mae cyfradd y bobl hŷn (y rhai sy'n 65 oed neu'n hŷn) a gefnogir yn y gymuned yn gyfrif o gleientiaid gwasanaethau cymdeithasol sy'n derbyn gwasanaethau dibreswyl. Ar gyfer 2009-10, mae cyfradd y bobl hŷn a gefnogir yn y gymuned ym Mhowys wedi gostwng yn sylweddol ers y flwyddyn flaenorol ac roedd cryn dipyn yn is na chyfartaledd Cymru.

2 Adroddiad blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol.

- Ar gyfer y tair blynedd rhwng 2007-08 a 2009-10, methodd Powys â chyrraedd ei dargedau ei hun ar gyfer nifer y bobl hŷn a gefnogir yn y gymuned.
- Hefyd, ceir mesur cenedlaethol ar gyfer cyfradd yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal (a elwir yn blocio gwelyau hefyd) am resymau'n ymwneud â gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75 oed neu'n hŷn. Methodd Powys â chyrraedd ei dargedau ei hun ar gyfer y mesur hwn ar gyfer 2009-10 a 2008-09 ac, fel y cydnabuwyd gan y Cyngor, mae ei berfformiad wedi bod gryn dipyn yn is na chyfartaledd Cymru am y ddwy flynedd a hanner diwethaf.

## A oes gan y Cyngor gynlluniau realistig ar gyfer datblygu model gwasanaeth wedi'i integreiddio?

56 Ar hyn o bryd nid oes gan y Cyngor gynlluniau cyflawn a chlir gyda chostau llawn i gyflawni'r amcan hwn. Gofal Cymdeithasol i Oedolion yw'r maes gwasanaeth sy'n bennaf gyfrifol am gyflawni'r amcan hwn. Mae'r Cynllun Gwella Gwasanaethau ar gyfer y maes hwn yn darparu cynllun gweithredu ar gyfer yr amcan 'ailddylunio gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion', ac yna mae'n cyfeirio at gaffael gwasanaethau, fel teleofal. Nid yw'n cyfeirio'n benodol at amcan o ddatblygu model gwasanaeth wedi'i integreiddio ac mae'r ffocws ar ddarparu teleofal yn annhebygol o gynnig ffordd newydd, sylfaenol o ddarparu gwasanaethau yn y gymuned mewn partneriaeth ag iechyd. Fodd bynnag, mae'r Cynllun Gwella Gwasanaethau yn nodi bod angen i'r Cyngor yn gyntaf nodi model priodol cyn y gall nodi costau ei weithredu, a'r gobaith yw y byddai'r Cyngor wedi dewis model priodol erbyn mis Tachwedd 2010.

57 Ers mis Mai 2007, mae'r Cyngor wedi bod yn datblygu'r hyn mae'n ei alw'n brosiect Llanfair-ym-Muallt. Drwy'r prosiect hwn mae'r Cyngor wedi sefydlu model o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol wedi'i integreiddio ar gyfer yr ardal hon ym Mhowys. Mae'r model wedi derbyn cydnabyddiaeth, a chaiff ei nodi yng Nghynllun Iechyd Gwledig Llywodraeth y Cynulliad. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor hyd yma wedi sicrhau'r cyllid gan Lywodraeth y Cynulliad i weithredu'r model hwn. Mae angen £36 miliwn ar y prosiect ac mae Bwrdd Addysgu Iechyd Powys wedi sicrhau £6 miliwn gan Lywodraeth y Cynulliad, caiff y gweddill ei ariannu gan y trydydd sector neu'r sector annibynnol ar ffurf darpariaeth 'craidd a chlwstwr'. Er bod cynlluniau'n nodi y bydd y prosiect yn cychwyn 'ar y safle' ym mis Mehefin 2011, nid yw'r Cyngor wedi sicrhau partner hyd yma.

58 Fel rhan o'r broses o ddatblygu dull wedi'i integreiddio o reoli a darparu gwasanaethau gyda Bwrdd Addysgu Iechyd Powys, cytunodd y Cyngor i gyfnod prawf o naw mis, i gyfuno swydd Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd a Chyfarwyddwr Strategol Gofal a Lles y Cyngor. Yn anffodus, nododd y broses recriwtio ar gyfer swydd barhaol Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd nifer o densiynau croes rhwng rôl Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol. O ganlyniad i'r tensiynau hyn, ni allai Llywodraeth y Cynulliad, y Bwrdd Iechyd na'r Cyngor Sir benodi rhywun. Mae'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd bellach wedi cytuno ar ffordd ddiwygiedig ymlaen ar gyfer y broses integreiddio yn seiliedig ar geisio cysoni Rhaglen Byw fel Oedolion y Cyngor â Rhaglen Amlinellol Strategol y Bwrdd Iechyd o dan faner 'Gwasanaethau ar gyfer Pobl Fregus a'r Henoed'.

59 Bydd angen fframweithiau llywodraethu a rheoli newydd yn ogystal ag ailddylunio gwasanaethau o bosibl er mwyn integreiddio gwasanaethau'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn eang. Mae'r cynnydd cyfyngedig hyd yn hyn yn nodi bwlch yn y gallu i wneud newidiadau o fewn y ddau sefydliad. Er bod y Cyngor wedi rhoi nifer o grwpiau ffrwd gwaith ar waith i ddarparu ei fodel cyflwyno gwasanaethau wedi'i integreiddio newydd, mae ffrydiau gwaith yn gymhleth ac mae'n anodd eu cysylltu'n glir â'r Cynllun Gwella Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i oedolion neu'r Ddogfen Cychwyn Rhaglen Byw fel Oedolion. Fodd bynnag, gyda'r nod o sicrhau arbedion o ran effeithlonrwydd, mae'r Cyngor yn nodi ac yn ystyried nifer o ffyrdd cadarnhaol o integreiddio ei reolaeth a'i wasanaethau ymhellach â'r Bwrdd Iechyd (e.e. datblygu cyd-gyllidebau; darparu TG; gwasanaethau a rennir ac ati.) ac mae'r mentrau hyn ar gamau gwahanol o'r broses weithredu.

### A fydd y Cyngor yn gallu dangos p'un a yw wedi gwella trefniadau ar gyfer datblygu model gwasanaeth wedi'i integreiddio?

60 Nid yw Cynllun Gwella Corfforaethol 2010-2014 y Cyngor yn cysoni naill ai'r mesurau strategol cenedlaethol na'r mesurau lleol ag amcanion gwella unigol. Nid yw'r Cyngor wedi datblygu unrhyw fesurau lleol sy'n seiliedig ar ganlyniadau i asesu ei gynnydd wrth gyflawni'r amcan Gwella hwn. Ei fwriad yw defnyddio'r mesurau cenedlaethol oedi wrth drosglwyddo gofal yn unig i asesu ei gynnydd o ran datblygu model cyflwyno gwasanaethau wedi'i integreiddio. Mae'r Cyngor wedi gosod targedau iddo'i hun ar gyfer pob blwyddyn o'r Cynllun Newid ar gyfer y mesur hwn. Erbyn diwedd 2013-14 mae'r Cyngor yn bwriadu mwy na haneru cyfradd yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal o 28 yn 2009-10 i 10 yn 2013-14.

61 Bydd cyrraedd ei dargedau o ran achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal yn galluogi'r Cyngor i ddechrau dangos ei fod wedi gwella ei drefniadau i ddatblygu model cyflwyno gwasanaethau wedi'i integreiddio. Fodd bynnag, dim ond cipolwg bach o'r effaith gadarnhaol ar ddinasyddion a geir wrth ddefnyddio un mesur pe byddai'r Cyngor yn darparu model cyflwyno gwasanaethau wedi'i integreiddio yn llwyddiannus - h.y. na fydd y rheini sy'n 75 oed neu'n hŷn yn aros yn hwy na'r angen yn yr ysbyty oherywdd 'blocio gwelyau'. Dylai gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol wedi'i integreiddio'n llwyddiannus gyflawni nifer o effeithiau a chanlyniadau cadarnhaol eraill i ddinasyddion, ac mae angen i'r Cyngor nodi'r rhain a datblygu mesurau priodol.

62 Mae'r Ddogfen Cychwyn Rhaglen a'r Cynllun Gwella Gwasanaethau yn cynnwys nifer o 'gerrig milltir' y gellir mesur llwyddiant y Cyngor yn eu herbyn o ran gweithio tuag at yr amcan gwella hwn. Fodd bynnag, mae'r cerrig milltir hyn yn tueddu i fod yn fesurau proses fewnol, fel sefydlu gweithgor, adolygu'r gwasanaeth neu ddatblygu cynllun gweithredu, yn hytrach na chanlyniadau mesuradwy ar gyfer dinasyddion.

# A yw Cyngor Sir Powys yn helpu pobl i ddatblygu?

63 Mae Estyn, arolygiaeth addysg a hyfforddiant Cymru, yn edrych ar ba mor dda y mae cynghorau yn helpu plant, pobl ifanc ac oedolion i feithrin gwybodaeth a sgiliau. Mae'n arolygu ysgolion, colegau addysg bellach a sefydliadau hyfforddi ac yn llunio barn ar ba mor dda y mae cynghorau yn cefnogi'r darparwyr addysg hyn. Mae Estyn, drwy ei dimau rhanbarthol, yn dadansoddi gwybodaeth am berfformiad, yn ymweld ag ysgolion ac yn cyfarfod yn rheolaidd â Chyfarwyddwyr Addysg er mwyn llunio barn ar rôl y Cyngor a pherfformiad ym maes addysg yn yr ardal.

64 Mae gan Bowys 13 o ysgolion uwchradd sy'n cynnig addysg i tua 9,000 o ddisgyblion, rhwng 11 a 18 oed, gyda thair ysgol arbennig ar gyfer 300 o ddysgwyr rhwng 2 a 18 oed. Ym mis Medi 2009, cofrestrodd 1,465 o ddysgwyr ag ysgolion chweched dosbarth. Mae nifer y disgyblion mewn ysgolion uwchradd yn amrywio o 330 o ddisgyblion i 1,140.

65 Yn ei gwerthusiad o wybodaeth am berfformiad, mae Estyn yn asesu perfformiad cymharol yn erbyn y meincnod prydau ysgol am ddim[3], lle disgwylir i'r awdurdodau lleol hynny lle mae amddifadedd cymdeithasol yn llai arwyddocaol berfformio'n well. Gan ddefnyddio'r dadansoddiad hwnnw, mae perfformiad Powys ar Gyfnod Allweddol 1 a 2 ym mhob dangosydd perfformiad islaw'r meincnod prydau ysgol am ddim, hyd yn oed pan fo perfformiad disgyblion yn uwch na chyfartaledd Cymru.

66 Mae canran y disgyblion ym Mhowys a wnaeth, ar Gyfnod Allweddol 1 neu yng ngrŵp blwyddyn 2, gyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg fel iaith gyntaf neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd wedi gostwng ychydig rhwng 2007 a 2010, er bod y gyfradd bresennol (82.2 y cant) yn parhau i fod ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru sef 81.6 y cant. Fodd bynnag, mae hyn yn cuddio tanberfformiad gan ddisgyblion ar Gyfnod Allweddol 1 yn y pynciau hyn, ac yn enwedig gyda Chymraeg fel iaith gyntaf, sy'n is na chyfartaledd Cymru ar 88.5 y cant ac yn llawer is na meincnod prydau ysgol am ddim Powys.

67 Rhwng 2007 a 2010 cododd canran y disgyblion ym Mhowys a wnaeth, ar Gyfnod Allweddol 2 neu yng ngrŵp blwyddyn 6, gyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg fel iaith gyntaf neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd. Er bod y gyfradd bresennol (79.4 y cant) yn gynnydd o 3.9 phwynt canran ers 2009, a'i bod bellach ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru sef 78.2 y cant, mae disgyblion Powys yn dal i danberfformio o'n mesur yn erbyn y meincnod prydau ysgol am ddim.

68 Mae Powys hefyd wedi gweld cynnydd graddol yn nifer y disgyblion a aseswyd yn y Gymraeg fel eu hiaith gyntaf ar Gyfnodau Allweddol 2 a 3.

69 Mae perfformiad disgyblion ar Gyfnodau Allweddol 3 a 4 yn dda, gyda chanlyniadau'n llawer uwch na chyfartaledd Cymru, ac yn gyffredinol o amgylch y meincnod prydau ysgol am ddim.

70 Mae'r Cyfrifiad Blynyddol o Ysgolion ar Lefel Disgyblion yn defnyddio ystod eang o gymwysterau (y tu hwnt i TGAU) a enillir gan ddisgyblion 15 oed i gyfrifo'r hyn a elwir yn sgôr pwyntiau ehangach gyfartalog. Mae'r sgôr pwyntiau ehangach gyfartalog ar gyfer disgyblion ym Mhowys wedi codi ar gyfradd gyson dros y pedair blynedd rhwng 2007 a 2010. Yn ystod y cyfnod hwnnw mae sgôr Powys wedi bod yn uwch na chyfartaledd Cymru bob amser ac o fewn chwarter uchaf awdurdodau lleol Cymru.

3 Defnyddir cyfran y disgyblion sydd â hawl cael prydau ysgol am ddim fel un o'r prif ddangosyddion o lefelau o anfantais economaidd-gymdeithasol ar gyfer naill ai ysgol unigol neu awdurdod lleol. Mae tlodi cymharol yn cael effaith arwyddocaol ar gyflawniad addysgol cyffredinol.

71 Mae nifer y diwrnodau ysgol a fethwyd oherwydd absenoldebau awdurdodedig mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, a gwaharddiadau mewn ysgolion uwchradd, yn achos pryder.

72 Mae nifer y bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yn gymharol isel. Mae canran yr oedolion o oedran gweithio ym Mhowys heb unrhyw gymwysterau wedi gostwng yn raddol ers 2001. Erbyn 2008, roedd y lefel yn 15.2 y cant, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru sef 14.6 y cant. Ers 2001, bu cynnydd hefyd yng nghanran yr oedolion o oedran gweithio â chymwysterau ar lefel pedwar NQF, fel bod Powys yn hanner uchaf 22 awdurdod lleol Cymru erbyn 2009.

## A yw Powys yn sicrhau bod ganddo bortffolio o ysgolion a sefydliadau addysg ôl-16 sy'n addas at y diben ac sy'n seiliedig ar yr egwyddor o wasanaethau sy'n canolbwyntio ar y gymuned, gan gynnwys hamdden ac adloniant a ddatblygwyd gyda'r bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc?

### Pam mae'r Cyngor wedi nodi hyn fel blaenoriaeth gwella?

73 Mae'r Cyngor wedi nodi niferoedd gostyngedig o ddisgyblion fel un o'i heriau allweddol, gyda'r un arall yn cynnwys cyfradd yr ôl-groniad cynnal a chadw mewn ysgolion a cholegau[4].

74 Mae nifer y disgyblion mewn ysgolion uwchradd wedi bod yn gostwng yn ystod y pum mlynedd diwethaf a rhagwelir y bydd y duedd hon yn parhau tan 2015. Ym mis Mehefin 2010, roedd gan y Cyngor 15 y cant o leoedd dros ben yn ei ysgolion uwchradd, a rhagwelir y bydd yn cynyddu i 25 y cant o fewn pum mlynedd. Cyfrifir swmp yr arian a gaiff ysgolion ar sail nifer y disgyblion. Mae'r gostyngiad a ragwelir yn nifer y disgyblion yn golygu y byddai ysgolion uwchradd ym Mhowys yn derbyn £3 miliwn y flwyddyn yn llai o fewn chwe blynedd.

75 Ym mis Ionawr 2006, roedd gan y Cyngor dros 25 y cant o leoedd dros ben (yn gostwng i 21.8 y cant erbyn 2009), ar gost o dros £4 miliwn (2006) mewn ysgolion cynradd.

### A oes gan y Cyngor gynlluniau realistig i sicrhau bod ganddo bortffolio o ysgolion a sefydliadau addysg ôl-16 sy'n addas at y diben ac sy'n seiliedig ar yr egwyddor o wasanaethau sy'n canolbwyntio ar y gymuned, gan gynnwys hamdden ac adloniant a ddatblygwyd gyda'r bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc?

76 Canfu Estyn fod y Cyngor wedi bod yn araf dros y degawd diwethaf o ran mynd i'r afael â'r lleoedd dros ben mewn ysgolion, sy'n golygu ei fod ar ei hôl hi o'i gymharu â chynghorau eraill. Fodd bynnag, roedd gani ddull y Cyngor o foderneiddio ei ddarpariaeth addysgol nifer o nodweddion cadarn:

- mae strategaethau ysgolion cynradd ac uwchradd ar gyfer ail-drefnu yn cael eu cytuno ac, ers 2008, mae'r Cyngor wedi datblygu ffocws cynyddol strategol ar glystrau o ardaloedd, a gefnogir gan Fyrddau Dalgylchoedd Ardaloedd Lleol (gydag aelodaeth eang) gyda'r nod o integreiddio blaenoriaethau corfforaethol ac anghenion a buddiannau lleol;

4 Ymhlith yr ysgogiadau eraill a nodwyd ar gyfer newid mewn ysgolion uwchradd a sefydliadau addysg ôl-16 mae newidiadau i'r cwricwlwm; yr angen i wella darpariaeth drwy'r Gymraeg a'r agenda cynhwysiant cymdeithasol.

- mae swyddogion wedi gweithio'n effeithiol i sicrhau bod aelodau'n llwyr gefnogol i gynlluniau'r Cyngor;
- mae'r Cyngor wedi cwblhau dadansoddiad trylwyr o anghenion addysgol disgyblion, ac anghenion cymunedau lleol er mwyn nodi opsiynau ar gyfer pob ardal; ac
- mae'r Cyngor yn cyfathrebu'n effeithiol â chymunedau lleol drwy Fyrddau Prosiect Dalgylcheodd Ysgolion lleol i feithrin consensws ar gynlluniau.

77 Y rhan sydd wedi'i datblygu orau o strategaeth foderneiddio'r Cyngor yw'r rhan sy'n ymwneud ag ailstrwythuro darpariaeth ysgolion cynradd yn ardal Ystradgynlais. Mae buddsoddiad o £37 miliwn yn mynd rhagddo i ddarparu pedwar cyfleuster newydd ac adnewyddu ysgol uwchradd yr ardal. Bydd y cyfleusterau newydd yn golygu y gall y Cyngor ddarparu mwy yn lleol i blant oedran ysgol gynradd sydd ag anghenion arbennig. Bydd y Cyngor yn cau 10 ysgol gynradd yn ardal Ystradgynlais. Dywed Estyn fod gan randdeiliaid lleol yn ardal Ystradgynlais farn gadarnhaol iawn ar y ffordd y mae'r Cyngor wedi rheoli'r broses hon o ailstrwythuro.

78 Mae camau eraill o strategaeth foderneiddio'r Cyngor ar gyfer ei ysgolion cynradd ar gamau cynharach, gyda'r Cyngor yn rhagweld y bydd wedi gweithredu canlyniadau'r pedwar adolygiad o ddarpariaeth ysgolion cynradd yn seiliedig ar ddalgylchoedd erbyn mis Medi 2014. Bydd y byrddau Dalgylchoedd lleol yn goruchwylio'r broses hon, dull sy'n ymddangos yn gydlynol ac mewn sefyllfa dda i fynd i'r afael â phryderon yr ardal leol, ac yn helpu i ddatblygu atebion pwrpasol lleol. Fodd bynnag, amser a ddengys p'un a all y byrddau gyflawni'r agenda uchelgeisiol hon mewn ffordd amserol ledled y Sir.

79 £43 miliwn yw'r gost ancangyfrifedig o weithredu'r rhaglen moderneiddio ysgolion cynradd. Nod y Cyngor yw defnyddio cyllid o raglen Ysgolion yr 21fed Ganrif Llywodraeth y Cynulliad i gyflymu'r broses o weithredu ei agenda foderneiddio ar gyfer ysgolion cynradd, er mwyn cyflawni effeithlonrwydd cyn gynted â phosibl. Yn unol â'r terfyn amser o 10 Rhagfyr 2010, cyflwynodd y Cyngor ei gynigion am gyllid i Lywodraeth y Cynulliad.

80 Ym mis Mehefin 2010, cyhoeddodd y Cyngor ei Raglen Amlinellol Strategol ar gyfer ysgolion uwchradd a sefydliadau addysg ôl-16 ym Mhowys, gan amlinellu ei ddyheadau ar gyfer moderneiddio ei ysgolion uwchradd a'i sefydliadau addysg ôl-16. Mae'r Cyngor wedi nodi yr opsiynau a ffefrir ganddo ar gyfer addysg 11-16 ac addysg ôl-16 yn y sir. Bydd y Cyngor yn dechrau ymgynghoriad cyhoeddus tri mis ar ei ddull arfaethedig ar 24 Ionawr 2011.

81 O dan ei Gynllun Newid, mae'r Cyngor yn ymrwymedig i gysoni ei raglen moderneiddio ysgolion a'i gynlluniau ar gyfer hamdden, adfywio a datblygu gwasanaethau cymorth yn y gymuned. Rydym yn cymeradwyo amcan y Cyngor o ddatblygu safleoedd aml-swyddogaeth, gan gynnal amrywiaeth o wasanaethau a chyfleusterau, er y bydd agenda mor uchelgeisiol ac eang yn golygu y bydd y Cyngor yn wynebu heriau o ran ei allu corfforaethol i ddarparu gallu sydd eisoes wedi'i ymestyn.

## A fydd y Cyngor yn gallu dangos p'un a yw wedi gwella ei drefniadau ar gyfer sicrhau fod ganddo bortffolio o ysgolion a sefydliadau addysg ôl-16 sy'n addas at y diben ac sy'n seiliedig ar yr egwyddor o wasanaethau sy'n canolbwyntio ar y gymuned, gan gynnwys hamdden ac adloniant a ddatblygwyd gan y bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc?

82 Mae'r Cyngor wedi nodi pedwar mesur y bydd yn eu defnyddio i asesu ei gynnydd wrth gyflawni'r amcan hwn:

- nifer y lleoedd sydd ar gael mewn ysgolion a gynhelir gan y Cyngor;
- nifer yr ysgolion sydd â chyllidebau annigonol;
- nifer yr ysgolion sydd â mwy na phump y cant o leoedd gwag; a
- nifer yr ysgolion sydd â statws asesu cyflwr cyffredinol C neu D.

83 Ar wahân i'r mesur diwethaf, mae'r Cyngor wedi gosod targedau blynyddol ar gyfer pob mesur dros gyfnod y Cynllun Newid.

84 Bydd y mesurau a'r targedau hyn yn galluogi'r Cyngor i asesu rhai agweddau ar ei amcan cyffredinol; mae'n amlwg fod cyfleusterau addysg addas at y diben yn cynnwys adeiladau sydd mewn cyflwr addas a gwasanaethau a gaiff eu rhedeg mor effeithlon â phosibl. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid yw'n glir sut y bydd y Cyngor yn asesu p'un a yw ei drefniadau newydd yn darparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar y gymuned ac yn darparu'r cyfleoedd hamdden ac adloniant sydd eu hangen ar y gymuned.

85 Mae'r Cyngor yn cynnal yr egwyddor fod ei agenda Moderneiddio Ysgolion yn ymwneud â datblygu ysgolion yr 21fed ganrif (Ffigur 3) ond nid oes ganddo gyfres eang o fesurau i gadarnhau ei egwyddor o ysgolion 'gydag adnoddau ar gyfer y gymuned gyfan a all gynnig amrywiaeth o gyfleusterau yn yr un lleoliad fel gofal plant, gwasanaethau iechyd a gofal ac addysg i oedolion'[5].

**Ffigur 3: Ysgolion yr 21fed ganrif**

**Mae rhaglen Ysgolion yr 21fed Ganrif Llywodraeth y Cynulliad yn darparu cyllid i awdurdodau lleol ddatblygu'r canlynol:**

- amgylchiadau dysgu i ysgolion yng Nghymru a fydd yn fodd i strategaethau ar gyfer gwella ysgolion gael eu gweitthredu'n llwyddiannus ac i sicrhau canlyniadau addysgol gwell;
- darbodusrwydd ac effeithlonrwydd gwell drwy well defnydd o adnoddau i wella cost effeithiolrwydd yr ystad addysg;
- system addysg gynaliadwy gyda phob ysgol yng Nghymru yn cyrraedd safonau adeiladu cenedlaethol ac yn lleihau costau cylchol ac ôl troed carbon yr ystad gyhoeddus.

5 Achos Busnes Amlinellol Strategol Mehefin 2010 ar gyfer ysgolion uwchradd a sefydliadau addysg ôl-16

# A yw Cyngor Sir Powys yn helpu i greu lle diogel, ffyniannus a phleserus i fyw?

86 Mae cyfraddau troseddu yn isel ym Mhowys; mae wedi cofnodi un o'r cyfraddau troseddu isaf yng Nghymru yn ystod y saith mlynedd diwethaf. Ond, ar hyn o bryd, ffyrdd Powys yw'r rhai mwyaf peryglus yng Nghymru, sefyllfa sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'u poblogrwydd ymhlith gyrwyr beiciau modur. Ar gyfer 2009, gan Bowys roedd y gyfradd uchaf (y pen o'r boblogaeth) o ran pobl yn cael eu lladd yng Nghymru ac roedd yn fwy na dwywaith y cyfartaledd yng Nghymru - er bod cyfraddau wedi bod yn gostwng ers 2000. Mae'r mater allweddol hwn yn amlwg yng Nghynllun Diogelwch Cymunedol Powys ac mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda'i bartneriaid, yn enwedig Heddlu Dyfed Powys, i geisio lleihau nifer y bobl a gaiff eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol mewn damweiniau ar ffyrdd Powys.

87 Mae trigolion Powys yn fwy tebygol o fod yn gyflogedig na thrigolion pob awdurdod lleol ond un yng Nghymru, ond mae cyflogau yn yr awdurdod lleol yn is na chyflogau bron pob un o 22 awdurdod lleol Cymru. Ym mis Gorffennaf 2010, dywedodd 2 y cant, neu 1600, o drigolion o oedran gweithio eu bod yn ddi-waith drwy hawlio Lwfans Ceisio Gwaith a chredydau Yswiriant Gwladol. 3.6 y cant oedd cyfartaledd Cymru, a Phowys oedd â'r lefel isaf ond un o ddiweithdra yng Nghymru. Yn 2008, 76.1 y cant oedd y gyfradd gyflogaeth ym Mhowys, sef y bedwaredd gyfradd uchaf o blith 22 awdurdod lleol Cymru.

88 Mae'r lefel uchel hon o gyflogaeth yn cael effaith gadarnhaol ar blant sy'n byw ym Mhowys; yn 2008 roedd gan Bowys un o'r cyfraddau isaf o blant yn byw mewn cartrefi di-waith. Yn 2009, £434 oedd yr enillion cyfartalog wythnosol ym Mhowys, a oedd yn un o'r isaf o blith 22 awdurdod lleol Cymru ac yn is na chyfartaledd Cymru.

89 Mae'r data diweddaraf ar ôl troed ecolegol Powys, sef faint o dir a dŵr cynhyrchiol y mae ei angen i gefnogi ei lefelau o ddefnydd a'r gwastraff a gynhyrchir, wedi dyddio, gan eu bod yn berthnasol i 2006. Fodd bynnag, mae'r data ar gyfer y flwyddyn honno yn dangos mai ôl troed ecolegol Powys oedd yr uchaf ond un o blith awdurdodau lleol Cymru.

## A yw Cyngor Powys yn lleihau faint o wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi?

### Pam mae’r Cyngor wedi nodi hyn fel blaenoriaeth gwella?

90 Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gosod targedau i gynghorau ailgylchu a chompostio 52 y cant o'u gwastraff erbyn 2012 a 70 y cant o'u gwastraff erbyn 2024, gan arwain at leihau faint o wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi. Mae hwn hefyd yn faes o berthnasedd ariannol sylweddol - os bydd y Cyngor yn methu â lleihau faint mae'n ei anfon i safleoedd tirlenwi caiff ei gosbi £200 fesul tunnell o dan y Cynllun Lwfansau Tirlenwi a bydd hefyd yn gorfod talu costau ychwanegol o ganlyniad i gostau gwaredu cynyddol.

91 Drwy bennu'r mater hwn fel blaenoriaeth gwella, mae'n dangos bod y Cyngor yn ymrwymedig i fynd i'r afael ag achosion o danberfformio. Yn 2006-07, roedd Powys yn un o ddau gyngor yn unig yng Nghymru i gyrraedd targedau ailgylchu/compostio 2010 Llywodraeth y Cynulliad - gan gyrraedd y targed o 40 y cant dair blynedd cyn bo angen. Yn yr un flwyddyn, roedd y Cyngor 12 y cant yn uwch na chyfartaledd Cymru. Fodd bynnag, ers hynny, mae'r perfformiad wedi gostwng 2 y cant a dim ond yn unol â chyfartaledd Cymru y mae'r Cyngor yn gweithredu bellach.

92 Roedd Cytundeb Gwella'r Cyngor 2009-10 yn ei gwneud yn ofynnol iddo gwblhau nifer o weithgareddau i leihau lefel y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi. Dangosodd ein hasesiad ac asesiad y Cyngor iddo'i hun nad oedd wedi cyflawni'r camau gofynnol a bennodd i'w hun ar gyfer 2009-10. Mae'r Cyngor yn cydnabod, gan fod cynghorau eraill wedi cyflwyno gwasanaethau casglu gwastraff newydd, ei fod wedi mynd are i hôl hi.

## A oes gan y Cyngor gynlluniau realistig ar gyfer lleihau faint o wastraff y mae'n ei anfon i safleoedd tirlenwi?

93 Mae gan y Cyngor strategaeth i leihau gwastraff drwy ei 'Brosiect Amgylchedd'. Yn ei hanfod mae'r prosiect yn system gasglu newydd, lle caiff bwyd a 'deunydd ailgylchu sych', fel papur, gwydr, caniau a thecstilau eu casglu o bob cartref yn wythnosol, a chaiff deunydd na ellir ei ailgylchu ei gasglu bob pythefnos. Darperir pob gwasanaeth gan weithredwyr mewnol.

94 Mae cynllun peilot o'r gwasanaeth casglu gwastraff newydd gyda 4,000 o gartrefi yn Ystradgynlais wedi'i gyflwyno. Mae'r canlyniadau cychwynnol yn gadarnhaol iawn, yn cynyddu faint a ailgylchir o 10 tunnell yr wythnos i 24 tunnell yr wythnos. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor hyd yma wedi cael cymeradwyaeth y Bwrdd i gyflwyno'r gwasanaeth ledled y sir er mwyn cyrraedd targed 2012-13 o 52 y cant o'r gwastraff yn cael ei ailgylchu neu'i gompostio. Mae'n bwriadu gwneud hynny yn ystod gwanwyn 2011.

95 Mae'r system newydd o 'ddidoli ar ymyl y ffordd' yn unol â dewis ddull Llywodraeth y Cynulliad o gasglu deunydd wedi'i ailgylchu ac felly mae'n lleihau'r risg y caiff arian grant ei dynnu'n ôl. Mae'r Cyngor mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ceredigion i gael system treulio anaerobig, cyfleuster trin gwastraff bwyd/deunydd gwyrdd. Mae'r broses gaffael yn mynd rhagddi a dylai'r cyfleuster fod yn barod erbyn mis Gorffennaf 2013, gan ddefnyddio arian grant Llywodraeth y Cynulliad.

96 I gydnabod bod angen cefnogaeth wleidyddol a chefnogaeth y cyhoedd i weithredu cynllun casglu newydd yn llwyddiannus, mae'r Cyngor wedi datblygu cynllun cyfathrebu. Mae'r cynllun hwn wedi cynnwys cyfres o sioeau teithio ac erthyglau yng nghylchlythyr y Cyngor a'r wasg leol.

97 Mae'r Cyngor yn amcangyfrif mai £10.1 miliwn (gan gynnwys £7.7 miliwn o wariant cyfalaf) fydd cyfanswm cost y prosiect. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cynnwys twf o £3 miliwn ar hyn o bryd fel y gall y gwasanaeth rheoli gwastraff alluogi'r system gasglu newydd i gael ei gweithredu. Mae papurau'r Cyngor[6] yn nodi bod modelu ariannol hyd yn hyn yn dangos y gellir gweithredu'r cynllun arfaethedig o fewn y gyllideb hon.

98 Fodd bynnag, mae risgiau sylweddol i weithredu'r gwasanaeth casglu newydd hwn yn llwyddiannus:

- Nid yw cymeradwyaeth y Bwrdd wedi'i sicrhau hyd yma ar gyfer gweithredu'r gwasanaeth casglu newydd yn llawn ledled y sir gyfan. Bydd methu â chael cymeradwyaeth y Bwrdd yn ystod gwanwyn 2011 yn atal y Cyngor rhag cyrraedd ei dargedau ailgylchu a chompostio.
- Nid oes gan y Cyngor ddigon o wybodaeth am gyfranogiad y cyhoedd mewn ailgylchu, ac felly nid yw mewn sefyllfa dda i dargedu'r grwpiau hynny nad ydynt yn ailgylchu. Nid yw'n bwriadu ystyried cyfraddau cyfranogiad y cyhoedd mewn ailgylchu nes ei fod wedi cyflwyno ei wasanaeth casglu newydd - nad oes dyddiad wedi'i bennu ar ei gyfer hyd yma.

6 Papur 8 Mehefin 2010 i'r Bwrdd ar Weithredu'r gwasanaeth ailgylchu a chasglu gwastraff newydd

- Mae'r costau refeniw amcangyfrifedig yn effeithio ar y lleihad yn y dreth tirlenwi pe byddai'r prosiect yn llwyddo, ac felly mae'n debygol y bydd y costau refeniw gwirioneddol yn fwy nag unrhyw amcangyfrifon.
- Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi bod yn araf o ran ceisio addasu ar gyfer y newid sydd ei angen ar wasanaethau gwastraff a bellach dim ond blwyddyn sydd ganddo i roi system newydd ar waith er mwyn cyrraedd ei darged ar gyfer ailgylchu a chompostio. Mae'r broses o ddatblygu'r drefn gasglu newydd wedi bod yn destun oedi sylweddol. Roedd y gwasanaeth newydd i fod i ddechrau ym mis Ebrill 2010 yn wreiddiol. Methodd y Cyngor y dyddiad hwn, ac nid yw wedi cytuno ar amserlen newydd ar gyfer y broses weithredu hyd yma, ond ni fydd cyn gwanwyn 2012. Dywedodd y Cyngor wrthym mai newidiadau mewn staff a newidiadau yn rolau aelodau oedd yn gyfrifol am yr oedi.
- Nid oes gan y Cyngor gynlluniau pendant hyd yma ar gyfer delio â gwastraff gweddilliol, ac mae'n dal i ystyried nifer o opsiynau.
- Mae ansicrwydd ynghylch p'un a fydd Llywodraeth y Cynulliad yn darparu grantiau i gynghorau ar gyfer rheoli gwastraff o 2011-12 ymlaen.

## A fydd y Cyngor yn gallu dangos p'un a yw wedi gwella trefniadau ar gyfer lleihau faint o wastraff y mae'n ei anfon i safleoedd tirlenwi?

99 Mae'r Cyngor yn hyderus, drwy gyflwyno ei wasanaeth casglu newydd, y gall gyrraedd tri allan o bedwar targed ailgylchu a chompostio Llywodraeth y Cynulliad. Dywedodd y Cyngor wrthym y bydd yn cael trafferth cyrraedd y targed olaf o ailgylchu a chompostio 70 y cant o'i wastraff erbyn 2024. Fodd bynnag, canfu adolygiad diweddar gan Swyddfa Archwilio Cymru o reoli gwastraff ledled Cymru bod y rhan fwyaf o gynghorau yn rhannu ansicrwydd Cyngor Sir Powys ynghylch p'un a allent gyrraedd y targed hwn.

100 Mae pedwar mesur cenedlaethol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu defnyddio i fesur p'un a yw ei drefniadau i leihau faint o wastraff mae'n ei anfon i safleoedd tirlenwi wedi gwella. Mae'r rhain yn ymwneud â'r canlynol:

- canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol ac a baratoir i'w ailddefnyddio neu'i ailgylchu, gan gynnwys sgîl wastraff wedi'i ddidoli wrth y ffynhonnell a gaiff ei gompostio neu'i drin yn fiolegol mewn ffordd arall; a
- chanran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol i'w anfon i safleoedd tirlenwi.

101 Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gosod targedau ailgylchu a chompostio i bob cyngor eu cyrraedd ar gyfer 2013, 2016, 2020 a 2025. At hynny, ar gyfer pob un o'r mesurau uchod, mae'r Cyngor wedi gosod targedau blynyddol iddo'i hun ar gyfer cyfnod y Cynllun Newid. Efallai y bydd y Cyngor yn diwygio ei dargedau blynyddol am i fyny pan fydd wedi gwerthuso canlyniadau treial Ystradgynlais yn llawn, gan fod dangosyddion cynnar yn dangos fod y cynllun peilot yn llwyddiannus.

102 Bydd cyrraedd ei dargedau blynyddol a thargedau Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer y tymor canolig yn galluogi'r Cyngor i ddangos ei fod wedi gwella ei drefniant ar gyfer lleihau faint o wastraff mae'n ei anfon i safleoedd tirlenwi.

103 Ni fydd trefniadau presennol y Cyngor ar gyfer casglu gwastraff yn ei alluogi i gyrraedd y targedau cenedlaethol a lleol hyn ar wastraff. Mae model y Cyngor ei hun yn dangos y bydd ond yn cyrraedd 64 y cant erbyn 2025, yn hytrach na 70 y cant. Mae'r diffyg hwn yn debyg i nifer o gynghorau ledled Cymru.

# Beth y dylai Cyngor Sir Powys ei wneud?

104 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor , byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth y Cynulliad ymyrryd mewn rhyw ffordd;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gan wneud argymhellion manwl;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud mae'n rhaid i'r Cyngor ymateb yn gyhoeddus i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod; a
- gwneud cynigion ar gyfer gwella - os byddwn yn gwneud cynigion i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd.

105 Nid ydym yn ystyried bod angen argymell ymyriad Gweinidogol, ac nid ydym ychwaith yn ystyried y dylid cael archwiliad arbennig nag argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella. Yn hytrach, rydym o'r farn bod angen i'r Cyngor ystyried y cynigion canlynol i'w helpu i wella:

**Cynigion a wnaed yn ein gwaith cynharach**

- dylai'r Cyngor, fel mater o flaenoriaeth:
  - ddatblygu ei Ddogfennau Cychwyn Rhaglen gan gynnwys cerrig milltir a mesurau gwella;
  - ffurfioli strategaeth gyfathrebu i sicrhau bod pob aelod o staff yn deall yr hyn sy'n ofynnol ganddynt o ran y Model Newid Strategol; a
  - chyhoeddi ei Gynllun Gwella fel bod dinasyddion yn gwybod ac yn deall yr hyn mae'r Cyngor yn ceisio'i ddarparu.
- datblygu trefniadau cynllunio ariannol a'r gweithlu i sicrhau bod adnoddau yn cael eu neilltuo, eu monitro a'u hadolygu yn unol â blaenoriaethau cytûn y Model Newid Strategol;
- datblygu ymhellach y Cynllun Ariannol Tymor Canolig i gynnwys manylion am sut y caiff arbedion eu cyflawni a'u hymgorffori yn y cynlluniau gwasanaeth perthnasol;
- dylai'r Cyngor atgyfnerthu agweddau ar ei drefniadau rheoli perfformiad drwy:
  - ddatblygu mesurau canlyniad sy'n dangos p'un a yw'r Cyngor yn gwneud gwahaniaeth i fywydau dinasyddion Powys ac i ba raddau y mae'n gwneud hynny; a
  - chysylltu cynlluniau strategol a gwella gwasanaethau â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a chynlluniau a blaenoriaethau allweddol eraill ar gyfer gwella.
- cefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol i gwblhau'r adolygiad o'r Strategaeth Gymunedol a datblygu'r Cynllun Cyflenwi Unigol gan sicrhau ei fod yn cynnwys canlyniadau mesuradwy ar gyfer dinasyddion Powys.

**Cynigion newydd**

- ysgogi a monitro'r broses o weithredu ein cynigion cynharach (uchod) er mwyn helpu i ddatblygu cynlluniau a rhaglenni a all gefnogi'r gwaith o gyflawni'r gwelliannau trawsnewidiol mewn gwasanaethau, a'r arbedion ariannol a nodir yng Nghynllun Gwella Corfforaethol 2010-2014;
- sicrhau bod cynlluniau gwella gwasanaethau yn cynnwys amcangyfrifon realistig o adnoddau ariannol, adnoddau dynol ac adnoddau eraill y mae eu hangen i gyflawni'r camau gweithredu arfaethedig, ac adolygu eu fforddiadwyedd mewn cyd-destun lle mae llai o adnoddau ar gael;
- cyhoeddi ei flaenoriaethau a'i gynlluniau gwella ar gyfer 2011-12 i'w cyflawni yn unol ag amserlenni statudol a sicrhau bod dinasyddion yn deall yr hyn y mae'r Cyngor yn bwriadu canolbwyntio ei weithgarwch arno, pa ganlyniadau buddiol y gallant eu disgwyl, a sut y gallant gynnig amcanion gwella newydd yn ystod y flwyddyn.

# Atodiad 1

## Gwybodaeth am Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r adroddiad hwn

**Yr Archwilydd Cyffredinol**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn helpu'r Archwilydd Cyffredinol drwy archwilio gwahanol agweddau ar y ffordd y mae cyrff c cyhoeddus yng Nghymru yn gweithio. Cafodd ei chreu yn 2005 pan unwyd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru a Chomisiwn Archwilio Cymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth y Cynulliad, y cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig; Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned.

Yn ogystal â chyflawni archwiliadau ariannol, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Gwnaeth y ddeddf a greodd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd ehangu pwerau'r Archwilydd Cyffredinol i ddilyn y 'bunt gyhoeddus' i ble bynnag yr aiff.

**Yr adroddiad hwn**

Cyflwynodd y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) (2009) gyfrifoldebau newydd i'r Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys cyfrifoldeb i gyhoeddi ei asesiad o drefniadau pob cyngor/awdurdod i sicrhau gwelliant parhaus.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i gyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o Fesur 2009. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni dyletswyddau o dan adran 19, sef cyhoeddi adroddiad sy'n cadarnhau ei fod wedi cynnal archwiliad o dan adran 17 ac asesiad gwella o dan adran 18.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau. Diffinnir Awdurdodau Gwella fel awdurdodau lleol, parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub.

Prif waith Swyddfa Archwilio Cymru, i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau, yw cynnal Asesiad Gwella blynyddol[7].

7 Caiff yr asesiad hwn ei gynnal ar gyfer pob awdurdod gwella, o dan adran 18 o'r Mesur. Ar gyfer pob awdurdod, bydd yn penderfynu a yw'r awdurdod yn debygol o gydymffurfio â gofynion Rhan 1 y Mesur. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn cynnal archwiliad o wybodaeth am welliannau a gwaith cynllunio ar gyfer gwella fel sy'n ofynnol o dan adran 17 o'r Mesur, er mwyn nodi a yw'r awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(1) i (7).

Caiff yr Asesiad Gwella blynyddol hwn ei lywio gan y canlynol:

- Asesiad Corfforaethol - asesiad sy'n ystyried y tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn y dyfodol;
- Asesiad o Berfformiad - asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant.

Cyhoeddir allbwn / allbynnau'r asesiadau hyn gan yr Archwilydd Cyffredinol fel Adroddiad(au) Archwilio ac Asesu o dan adran 19 o'r Mesur. Drwy gyhoeddi'r adroddiad hwn o dan adran 19, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cadarnhau ein bod wedi cynnal archwiliad o dan adran 17 ac asesiad gwella o dan adran 18.

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal Arolygiadau Arbennig (o dan adran 21), y bydd yn cyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol mewn perthynas â hwy, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22).

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi'r Adroddiadau Archwilio ac Asesu yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol cyhoeddedig hwn (o dan adran 24). Bydd yr adroddiad hwn hefyd yn crynhoi unrhyw adroddiadau ar Arolygiadau Arbennig.

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yn ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau a bydd yr adroddiad hwn yn crynhoi unrhyw waith a wnaed ganddynt.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn nodi'r ffi ar gyfer ei waith archwilio perfformiad a wnaed i gyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur ym mhob awdurdod lleol mewn Rhaglen Reoleiddio y cytunwyd arni bob blwyddyn â'r awdurdod. Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi ar gyfer mis Tachwedd 2009 hyd at fis Mawrth 2011 fod yn unol â'r swm a nodir yn y Rhaglen Reoleiddio.

# Atodiad 2

## Gwybodaeth ddefnyddiol am Bowys a Chyngor Sir Powys

Aelodau Etholaeth y Cynulliad dros Bowys yw:

- Kirsty Williams, Brycheiniog a Sir Faesyfed, y Democratiaid Rhyddfrydol
- Mick Bates, Sir Drefaldwyn, y Democratiaid Rhyddfrydol

Yr Aelodau Seneddol dros Bowys yw:

- Glyn Davies, Sir Drefaldwyn, y Blaid Geidwadol
- Roger Williams, Brycheiniog a Sir Faesyfed, y Democratiaid Rhyddfrydol

Ceir 73 o Gynghorwyr ym Mhowys sy'n cynrychioli'r gymuned ac sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a defnyddio adnoddau. Mae'r Cyngor yn cynnwys Aelodau o'r grwpiau gwleidyddol canlynol:

- 4 o'r Blaid Lafur
- 9 o'r Blaid Geidwadol
- 15 o'r Blaid Democratiaid Rhyddfrydol
- 43 o Gynghorwyr Annibynnol
- 2 Nad ydynt yn aelodau o unrhyw blaid

Yn 2008-09, gwariant refeniw gros y Cyngor oedd £286 miliwn, sy'n gyfwerth â £2,154 fesul trigolyn. Yn y flwyddyn honno, gwariodd y Cyngor £26 miliwn ar eitemau cyfalaf hefyd. Yn 2009-10, y dreth gyngor gyfartalog ar gyfer band D ym Mhowys oedd £1,057.32 y flwyddyn, a fydd yn cynyddu 4.29 y cant i £1,102.70 y flwyddyn ar gyfer 2010-11.

**Tîm Rheoli Corfforaethol**

Jeremy Patterson yw Prif Weithredwr y Cyngor. Y Prif Weithredwr yw Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig.

Mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn cynnwys:

- Caroline Byrt, Cyfarwyddwr Strategol, Gofal a Lles
- Geoff Petty, Cyfarwyddwr Strategol, Cyllid a Seilwaith (Swyddog Adran 151)
- Paul Griffiths, Cyfarwyddwr Strategol, Cymunedau, a Sgiliau a Dysgu
- Clarence Meredith, Cyfarwyddwr Strategol, y Gyfraith a Llywodraethu (Swyddog Monitro)
- Cliff Shields, Cyfarwyddwr, Perfformiad, Partneriaethau a Moderneiddio

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Am ragor o wybodaeth ewch i wefan y Cyngor ei hun yn www.powys.gov.uk neu cysylltwch â'r Cyngor yn Neuadd y Sir, Llandrindod, Powys, LD1 5LG

# Atodiad 3

## Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol

Nodir isod brif gasgliadau Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol, a gyflwynwyd i'r Cyngor ym mis Mehefin 2010:

**Mae ymrwymiad y Cyngor i symud o ddulliau darparu adrannol traddodiadol, sydd wedi cael anhawster i gyflawni ei flaenoriaethau, i ddull mwy uchelgeisiol, trawsbynciol a chydsyniol yn cynnig y potensial i sicrhau gwelliant os caiff trefniadau ategol effeithiol eu datblygu'n brydlon.**

**Sut mae'r Cyngor wedi mynd ati i sicrhau gwelliant dros amser**

Mae gan y Cyngor hanes diweddar o newid ac nid yw wedi cyflawni ei flaenoriaethau sefydledig mewn rhai meysydd ond mae gan ei Fodel Newid Strategol sy'n cael ei ddatblygu y potensial i gefnogi gwelliant, os caiff ei ddatblygu'n brydlon a'i reoli'n ofalus.

Nid yw'r Cyngor wedi cyflawni ei flaenoriaethau hirsefydledig mewn rhai meysydd gwasanaethau allweddol ac mae ei gynnydd mewn meysydd eraill wedi bod yn araf.

Mae gan y Cyngor dîm rheoli a gweinyddiaeth wleidyddol newydd sy'n ymrwymedig i newid gwasanaethau er gwell a gwneud y defnydd gorau posibl o'r adnoddau sydd ar gael.

Bydd cyflawni amcanion uchelgeisiol y Cyngor yn anodd heb i'r arweinwyr newydd gyflwyno trefniadau cefnogol syml ac effeithiol.

**Dadansoddi trefniadau'r Cyngor i'w helpu i wella**

Mae arweinwyr a threfniadau rheoli newydd yn cyfleu gweledigaeth a strategaeth y Cyngor ac yn helpu i gynyddu lefelau ymgysylltu ond gall cynnydd gael ei arafu gan wendidau mewn trefniadau i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r agenda newid strategol.

Mae'r tîm rheoli newydd yn rhoi arweinyddiaeth gorfforaethol gref ac yn cefnogi gwaith partneriaeth cadarnhaol ond megis dechrau y mae'r gwaith o ddatblygu manylion ei raglen newid strategol a'i drefniadau cynllunio busnes.

Mae gan y Cyngor hanes cryf o ran rheolaeth gyllidebol ond nid yw trefniadau gwasanaethau a chynllunio ariannol wedi'u hintegreiddio'n dda ac nid yw cynllunio ariannol tymor hwy eto'n ddigonol i gefnogi ei agenda newid strategol.

Mae prosesau rheoli pobl o hyd wedi'u tanddatblygu ac nid yw'n helpu'r Cyngor i sicrhau gwelliant.
Nid yw trefniadau rheoli perfformiad yn ddigonol i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r rhaglen newid drawsbynciol.

Mae'r Cyngor wedi dechrau adeiladu'r seiliau i alluogi TGCh i gefnogi gwelliant, ond mae o hyd rwystrau sylweddol i'w goresgyn.

I weld yr adroddiad llawn, ewch i'n gwefan yn www.wao.gov.uk neu cysylltwch â ni yn y cyfeiriad ar du mewn i glawr yr adroddiad hwn.

# Atodiad 4

## Llythyr Archwilio Blynyddol at Aelodau Cyngor Sir Powys

**Cydymffurfiodd Cyngor Sir Powys â'r gofynion adrodd sy'n gysylltiedig â threfniadau ariannol a gwella perfformiad ond mae'n wynebu pwysau ariannol sylweddol yn y dyfodol agos**

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:
- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol;
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau;
- cyhoeddi ei Gynllun Gwella erbyn 31 Hydref.

Mae'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol (y Cod) yn ei gwneud yn ofynnol i mi:
- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau;
- ystyried a yw'r Cynllun Gwella wedi'i baratoi a'i gyhoeddi yn unol â gofynion statudol;
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Ar 27 Medi 2010, rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o drafodion ariannol y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon.

Nodwyd y materion canlynol wrth archwilio'r cyfrifon:
- mae'r prosesau ar gyfer paratoi datganiadau cyfrifyddu wedi parhau i wella gan arwain at ddatganiadau drafft o ansawdd uchel a ategir gan bapurau gwaith cynhwysfawr;
- nid oedd unrhyw gamddatganiadau nas cywirwyd i'w cofnodi, oherwydd er bod nifer o gamddatganiadau wedi'u nodi yn ystod y broses archwilio, diwygiwyd pob un ohonynt yn y datganiadau ariannol archwiliedig terfynol a lofnodwyd ar 27 Medi 2010;
- paratowyd ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan yn effeithiol ac yn unol ag amserlen y Cynulliad;
- mae ansicrwydd cynhenid yn gysylltiedig â'r broses o brisio buddsoddiadau heb eu dyfynnu ar fantolen y gronfa bensiwn, er fy mod yn fodlon eu bod yn berthnasol gywir ar 31 Mawrth 2010.

Mae fy adolygiad o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon yn ogystal â dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Mesur Llywodraeth Leol. Caiff prif ganfyddiadau'r gwaith olaf hwn eu nodi yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol. Yn ogystal, tynnaf eich sylw at y materion canlynol:

- Mae trefniadau ar waith ar gyfer rheoli a monitro'r gyllideb ac mae prosesau cynllunio ariannol tymor canolig yn datblygu, ond mae'r Cyngor yn wynebu pwysau ariannol sylweddol yn y dyfodol ac mae angen iddo sicrhau bod ei gynlluniau ariannol tymor canolig yn ategu ei gynlluniau darparu gwasanaeth. Cyfeirir at hyn ymhellach yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol.
- Mae angen datblygu cynlluniau strategol gwasanaethau ymhellach er mwyn ategu'r broses o gyflawni'r cynllun newid strategol a gyhoeddwyd.
- Mae angen moderneiddio'r trefniadau hanesyddol ar gyfer rhai contractau a chytundebau gwastraff er mwyn cynnig gwell rheolaeth fewnol ac er mwyn sicrhau gwerth am arian. Mae'r Cyngor wedi cydnabod y mater hwn ac yn bwriadu cymryd camau yng nghyd-destun y gwaith o roi strategaeth wastraff y Cyngor ar waith.

Mae Cynllun Gwella'r Cyngor ar gyfer 2010-2011 yn bodloni'r gofynion statudol a bydd Adroddiad yr Asesiad Gwella yn awgrymu rhagor o welliannau.

Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 27 Medi 2010, er ein bod wrthi ar hyn o bryd yn adolygu eitem a gyfeiriwyd atom o dan y Ddeddf Datgelu Er Budd y Cyhoedd.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2009-10 fod yn unol â'r swm a nodir yn y Strategaeth Archwilio Ariannol.

Yn gywir

John Herniman
Archwilydd Penodedig
29 Tachwedd 2010

Mae gan etholwyr lleol ac eraill yr hawl i edrych ar gyfrifon y Cyngor. Pan fydd y Cyngor wedi cwblhau ei gyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol, fel rheol tua mis Mehefin neu fis Gorffennaf, mae'n rhaid iddo hysbysebu eu bod ar gael i bobl edrych arnynt. Gallwch gael copïau o'r cyfrifon gan y Cyngor; gallwch hefyd weld pob llyfr, gweithred, contract, bil, taleb a derbynneb sy'n ymwneud â hwy am 20 diwrnod gwaith ar ôl iddynt gael eu darparu. Gallwch ofyn cwestiynau i'r archwilydd am y cyfrifon ar gyfer y flwyddyn y mae'n ei harchwilio. Er enghraifft, gallwch roi gwybod i'r archwilydd os ydych o'r farn bod rhywbeth o'i le ar y cyfrifon neu am wastraff neu aneffeithlonrwydd o ran y ffordd y mae'r cyngor yn rhedeg ei wasanaethau.

I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar daflen Swyddfa Archwilio Cymru, *Cyfrifon y Cyngor: eich hawliau* ar ein gwefan yn www.wao.gov.uk neu ysgrifennwch atom yn y cyfeiriad ar gefn yr adroddiad hwn.

# Atodiad 5

## Amcanion gwella Cyngor Sir Powys

Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion gwella yn ei Gynllun Gwella Corfforaethol ar gyfer 2010-2014, a elwir yn Gynllun Newid Powys hefyd y gellir ei weld ar wefan y Cyngor yn www.powys.gov.uk.

Mae'r amcanion fel a ganlyn:

| **Blaenoriaethau gwella** | |
|---|---|
| Byw fel oedolion | Helpu'r boblogaeth hŷn i aros yn eu cartrefi, ond hefyd wella cyflwr tai ac atal digartrefedd. |
| Dysgu yn y Gymuned | Ateb heriau'r nifer gostyngol o ysgolion, drwy ddatblygu cyfleusterau aml-swyddogaeth, sy'n darparu cyfleoedd dysgu a hamdden i'r gymuned gyfan. |
| Adfywio | Cwblhau strategaeth adfywio Powys sy'n allweddol wrth greu cymunedau ffyniannus. |
| Newid yn yr Hinsawdd | Lleihau ôl troed carbon y Cyngor, cefnogi eraill wrth leihau eu hallyriadau carbon eu hunain a gwella gallu Powys i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd, tywydd garw yn benodol. |
| **Blaenoriaethau effeithlonrwydd** | |
| Prosesau | Gwella effeithlonrwydd drwy broses fwy syml a llai biwrocrataidd, sy'n rhoi mwy o bŵer i staff y rheng flaen. |
| TGCh | Defnyddio TGCh i gefnogi'r gwaith o ail-beiriannu a darparu proses yn erbyn amcanion gwella. |
| Gweithlu | Sicrhau y caiff staff y Cyngor eu cydnabod mewn ffordd deg a bod ganddynt y sgiliau priodol. |
| Gwasanaethau Cefnogol | Cyflawni effeithlonrwydd mewn gwasanaethau cymorth, drwy weithio gyda phartneriaid, fel y gwasanaeth iechyd a chynghorau eraill. |
| Asedau | Ad-drefnu portffolio eiddo'r Cyngor drwy ddatblygu adeiladau y rhennir y defnydd ohonynt, a lleihau'r fflyd drwy rannu'r defnydd o gerbydau. |
| Rheoleiddio | Ailddylunio gwasanaethau i gyflawni effeithlonrwydd sy'n adlewyrchu sefyllfa ariannol bresennol y Cyngor. |

# Atodiad 6

## Cyfeiriadau

Daw'r data y cyfeirir ato yn yr adroddiad hwn o un o'r ffynonellau canlynol:

- Llywodraeth Cynulliad Cymru, StatsCymru
- Llywodraeth Cynulliad Cymru, ystadegau crynhoi ardaloedd lleol
- Gwefannau a chynlluniau gwella yr Awdurdod Gwella ei hun
- The Wales Yearbook
- Y Swyddfa Gartref
- Gwasanaeth Ymchwil Aelodau
- Swyddfa Ystadegau Gwladol